Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Emlyn
# Castellnewydd Emlyn
# Sir Gaerfyrddin
# SA38 9LN

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Emlyn

Mae Ysgol Gyfun Emlyn yn ysgol gyfun 11 i 18 oed sydd wedi'i lleoli yn nhref Castellnewydd Emlyn ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Caiff yr ysgol ei chategoreiddio'n ysgol 'Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg'. Mae tua 65% o'r disgyblion yn cwblhau eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Daw disgyblion i'r ysgol o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 500 o ddysgwyr, gan gynnwys 93 yn y chweched dosbarth. Mae'r nifer hwn yn llai o lawer nag ar adeg yr arolygiad craidd diwethaf. Cyfran bresennol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 16.7%, sydd gerllaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol ac nid oes unrhyw un yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan ychydig dros 20% o ddisgyblion angen dysgu ychwanegol ac mae gan ychydig llai na 5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%.

Mae 42% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae 16.4% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Caiff Cymraeg ei haddysgu fel mamiaith i 62% o ddisgyblion Ysgol Emlyn. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn gallu astudio dylunio a thechnoleg, hanes, cerddoriaeth a chelf trwy gyfrwng y Gymraeg. Heblaw TGAU Cymraeg, nid oes unrhyw ddisgyblion yn dilyn yr un pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2013. Caiff ei gefnogi gan dri phennaeth cynorthwyol ar sail amser llawn a phennaeth cynorthwyol sy'n gweithio ar sail 80% o'r amser.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Gyfun Emlyn ethos cynhwysol a chroesawgar. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae arweinwyr wedi cynyddu eu ffocws ar ansawdd addysgu, olrhain perfformiad disgyblion a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell yng nghyfnod allweddol 4 a lefelau cyson uchel o fedrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion a arferai gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud digon o gynnydd o ran eu meistrolaeth ar y Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn uchel ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae'r disgyblion hyn yn mwynhau dod i'r ysgol, maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu hathrawon na'u cymheiriaid. Maent yn ymddwyn yn wael ac mae hyn yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Cymraeg a chynyddu defnydd y disgyblion ar yr iaith

A2 Gwella presenoldeb, ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A3 Cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gysylltiedig â phresenoldeb, ymddygiad a defnydd disgyblion ar y Gymraeg

A5 Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae deilliannau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod gerllaw neu'n well na'r deilliannau mewn ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn datblygu'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol pynciau yn dda. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, defnyddiant eu gwybodaeth am hydroleg i lunio rhagfynegiadau am effaith gwaredu amddiffynfeydd naturiol ar aneddiadau arfordirol. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion feistrolaeth gadarn ar y Saesneg ac maent yn ei defnyddio'n dda i gyfleu eu syniadau mewn trafodaethau. Gydag amser, maent yn datblygu eu geirfa penodol i bwnc yn dda. Er enghraifft, wrth ddadansoddi anerchiad gan F.D. Roosevelt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ddyfeisiau llenyddol fel 'gormodiaeth', 'treblu', 'ffrwydrolion' a 'rhestri heb groesgyfeiriad'. Gall ychydig ddisgyblion drafod agweddau soffistigedig ar iaith, er enghraifft wrth nodi is-gymalau yn eu gwersi Ffrangeg. Mae'r disgyblion hyn yn gallu siarad yn huawdl am amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, mae disgyblion yn cynnig ymatebion byr, annatblygedig i gwestiynau, neu maent yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cwblhau eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn colli hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mewn gwersi cyfrwng Cymraeg, maent yn ymateb yn y Saesneg yn unig i'w hathrawon ac i'w gilydd. Dim ond ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n dangos hyder a rhugldér wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddarllenwyr cymwys ac yn gallu lleoli a deall darnau perthnasol o wybodaeth i ategu'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen ar goedd gyda rhugldér a mynegiant priodol. Mewn llawer o bynciau, mae disgyblion yn datblygu'n dda eu gallu i gasglu ystyr o amrywiaeth o destunau. Mae ychydig ddisgyblion yn dangos medrau dadansoddi datblygedig, er enghraifft wrth gymharu sut mae gwahanol feirdd yn cynrychioli sut beth yw bod yn ffoadur.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cynhyrchu llawer iawn o ysgrifennu estynedig at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a dibenion. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion hyn yn ysgrifennu'n gywir iawn ac yn gallu cyfleu eu syniadau'n gydlynus. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn ailddrafftio'u gwaith yn fuddiol, gan gymryd sylw gofalus o gyngor eu hathrawon. Mewn ychydig achosion, mae disgyblion yn dangos dawn a chreadigrwydd, gan gynhyrchu brawddegau Saesneg fel, 'A shimmer of light shines through a small, mouldy crack in the ceiling and I realise that it is the start of another working day.' Yn y Gymraeg, fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg mynych.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn addas ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae ganddynt amgyffrediad cadarn o dechnegau mathemategol, er bod ychydig yn adalw tablau lluosi yn wael. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu llunio a phlotio graffiau'n gywir. Deallant yn dda sut i nodi patrymau o ddata a llunio llinellau ffit orau. Mae gan y disgyblion hyn ddealltwriaeth dda o gymesuredd ac maent yn ei defnyddio'n dda, er enghraifft wrth gyfrifo fformiwlâu empirig mewn cemeg.

Mewn llawer o bynciau, mae disgyblion yn defnyddio swyddogaethau sylfaenol pecynnau meddalwedd, fel prosesu geiriau neu gynhyrchu cyflwyniadau, yn gymwys. Mewn ychydig achosion, datblygant dechnegau uwch, fel creu tudalennau gwe yng ngwersi Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid ydynt yn defnyddio'r agweddau mwy soffistigedig ar feddalwedd, fel modelu neu ddefnyddio fformiwlâu mewn taenlenni, yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm i atgyfnerthu na datblygu'u medrau TGCh.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u creadigrwydd yn dda, yn enwedig yn eu gwersi drama, Saesneg, celf, a dylunio a thechnoleg. Mae ychydig yn datblygu'r agwedd hon i raddau uchel, er enghraifft wrth gyfansoddi darn o gerddoriaeth siambr mewn cystadleuaeth leol i gyfansoddwyr ifanc.

Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a chyfran y disgyblion sy'n cael 5 TGAU A*-A gerllaw'r rheiny mewn ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae deilliannau ar lefel 3 wedi bod gerllaw deilliannau mewn ysgolion tebyg er 2016. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi bod yn well na'r perfformiad mewn ysgolion tebyg yn gyson. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill 3 gradd A*-C wedi bod uwchlaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg yn gyson. Mae perfformiad o ran graddau A*-A wedi amrywio, ond mae wedi bod uwchlaw ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn a merched yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad wedi bod gerllaw perfformiad bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg. Er 2016, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan amlaf uwchlaw perfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Er 2016, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n dda ar y cyfan yn erbyn eu targedau dysgu.

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg mamiaith ar lefel 2 yn amrywio'n sylweddol. Cyflawnodd disgyblion yn hynod o dda yn 2017 ond dirywiodd deilliannau'n sylweddol yn 2018, yn bennaf oherwydd perfformiad hynod wael gan fechgyn. Mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gan amlaf, er bod deilliannau yn 2018 ymhell islaw'r ffigur hwn.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Emlyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn gwybod at bwy y gallant droi os bydd angen help arnynt. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrtais i'w gilydd, i staff ac i ymwelwyr â'r ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, mae ymddygiad disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn wael iawn ac mae'n effeithio'n negyddol ar ddysgu a lles disgyblion eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac, mewn llawer o achosion, maent yn barod i ddysgu. Mae llawer ohonynt yn dangos brwdfrydedd tuag at ddysgu ac maent yn ateb cwestiynau yn hyderus. Er enghraifft, maent yn cynnal trafodaeth fywiog yn eu gwersi drama am 'statws' a 'chymeriadaeth'. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cryn wydnwch a phenderfyniad pan roddir tasgau heriol iddynt. Mewn ychydig achosion, mae disgyblion yn dangos chwilfrydedd ac yn gofyn cwestiynau i'w hathrawon neu'n gosod tasgau ymchwil i'w hunain i ymestyn eu dealltwriaeth.

Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, mae disgyblion yn ymddwyn yn hynod heriol ac aflonyddgar. Yn yr enghreifftiau hyn, nid yw'r disgyblion yn trin staff na'u cymheiriaid gyda pharch dyledus. Caiff hyn effaith niweidiol ar ddysgu a lles disgyblion eraill. Mae ychydig ddisgyblion yn teimlo bod disgyblion eraill yn eu bwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn delio'n addas â'r enghreifftiau hyn; fodd bynnag, nid yw ychydig ddisgyblion o'r farn bod y materion hyn yn cael eu datrys yn ddigon da.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach o ran diet a gweithgarwch corfforol yn dda. Maent yn elwa o gymryd rhan yn rheolaidd mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, fel rhedeg trawsgwlad, pêl-rwyd, hoci, rygbi a phêl-droed. Mae disgyblion o ganolfan cynhwysiant yr ysgol yn elwa'n fawr o raglen rygbi cadair olwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn fuddiol mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn weithgar ac yn llwyddiannus iawn mewn cynghrair cystadleuaeth codio roboteg, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn ymgymryd â rolau arwain gwerthfawr; er enghraifft, maent yn rhedeg 'clwb trafod' a chlwb 'osgoi'r bêl' yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cyfrannu'n fuddiol at fywyd yr ysgol drwy'r 'System Gyfeillio'. Maent yn helpu disgyblion penodol i oresgyn anawsterau gyda'u gwaith neu eu perthnasoedd, mewn sesiynau un i un. Yn ogystal, maent yn helpu disgyblion iau i ddatblygu eu trugaredd trwy drefnu gweithgareddau codi arian, fel Diwrnod Elusennau blynyddol yr ysgol.

Mae'r cyngor ysgol wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol at wneud penderfyniadau yn yr ysgol, fel cyflwyno gwisg haf a dyddiaduron cyswllt electronig, a gwella toiledau'r ysgol. Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi dylanwadu ar gynnwys darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol, er enghraifft cynnwys sesiynau iechyd meddwl i gefnogi a hyrwyddo lles disgyblion.

Er 2016, mae cyfraddau presenoldeb wedi dirywio. Maent wedi bod islaw'r cyfraddau mewn ysgolion tebyg yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae data dros dro gan yr ysgol yn awgrymu bod y duedd ddirywiol hon yn parhau yng nghyfnod allweddol 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau cryf iawn o iaith. Mae llawer ohonynt yn sefydlu cydberthynas gadarn â disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynghylch cyflawniadau disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth buddiol ac maent yn cyflwyno'u gwersi gydag angerdd, brwdfrydedd ac yn hwyliog. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ac yn eu gwybodaeth am y pwnc.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn addasu gweithgareddau dysgu i gyfateb i'w gallu. Mae eu gwersi'n dal diddordeb disgyblion ac yn cynnwys gweithgareddau sydd â lefel gynyddol o her. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio pwyntiau allweddol buddiol i wirio dealltwriaeth disgyblion ac i gywiro unrhyw gamsyniadau.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn angerddol am eu pwnc ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel tu hwnt ar gyfer eu disgyblion. Maent yn cyflwyno'u gwersi gydag afiaith a brwdfrydedd. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio'n ofalus iawn i sicrhau cynnydd cyflym a dealltwriaeth ddofn. Maent yn gofyn cwestiynau craff ac yn dilyn atebion disgyblion i fyny gyda chwestiynau ychwanegol i ddatblygu meddwl ac annog chwilfrydedd y disgyblion.

Mewn ychydig achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da ac nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer ymddygiad neu gynnydd disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnig tasgau syml i ddisgyblion, sy'n eu cadw'n brysur ond nad ydynt yn annog cynnydd. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn aml yn colli diddordeb yn y dysgu ac yn ymddwyn yn wael o ganlyniad.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio gallu disgyblion i adalw, a'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw athrawon yn gofyn cwestiynau digon penagored neu maent yn ateb eu cwestiynau eu hunain. Mae'r diffygion hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau meddwl a'u hannibyniaeth. Dim ond mewn ychydig bach iawn o achosion y mae athrawon yn annog disgyblion rhugl eu Cymraeg i ymateb yn Gymraeg.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth defnyddiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith ac maent yn cywiro unrhyw gamsyniadau mewn modd sensitif. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn glir y meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer gwaith o safon uchel. Mewn mwyafrif o achosion, maent yn rhoi tasgau ychwanegol wedi'u teilwra i ddisgyblion, neu gyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio'u gwaith yn fuddiol. Mewn ychydig achosion, fodd bynnag, mae athrawon yn cynnig sylwadau swta yn unig nad ydynt yn helpu disgyblion i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o opsiynau i ddisgyblion, sy'n cynnwys cyrsiau academaidd a galwedigaethol addas.

Mae unedau cynhwysiant yr ysgol yn gweithio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol, ynghyd â'u medrau bywyd. Er enghraifft, maent yn mynd i siopa am fwyd, dysgu sut i nofio a gweithio mewn canolfan bowlio deg.

Mae profiadau dysgu mewn llawer o feysydd pwnc yn gyffrous a diddorol. Er enghraifft, mewn Saesneg, rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio i fywyd pobl Iddewig cyn yr holocost ac i lunio cymariaethau â materion cyfoes, fel y sefyllfa yn y Dwyrain Canol ac agwedd Donald Trump tuag at Fecsico. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol, fel y clybiau codio, Ffrangeg a Sbaeneg. Mae llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ehangu'u gorwelion trwy ymweliadau addysgol, er enghraifft i orielau celf ac ymweliadau diwylliannol â Barcelona.

Mae'r ysgol wedi mapio datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda. Caiff cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion eu hintegreiddio'n gyson i bob maes pwnc. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn llawer o bynciau perthnasol, gan gynnwys 'heriau rhifedd' mewn dylunio a thechnoleg, a chyfrifiadau heriol mewn gwyddoniaeth. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn fanwl ac yn cynllunio ymyriadau defnyddiol ar gyfer y disgyblion hynny â medrau gwannach.

Mae lleiafrif o bynciau'n rhoi cyfleoedd addas i fyfyrwyr ddefnyddio'u medrau TGCh sylfaenol. Fodd bynnag, megis dechrau y mae cynllunio'r ysgol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy drafod boddi Capel Celyn a Chwm Tryweryn i greu cronfa ddŵr. Er 2015, mae cyfran y disgyblion sy'n sefyll cwrs TGAU Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi cynyddu'n addas.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae sawl agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn hyrwyddo lles disgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae ethos cynhwysol a meithringar yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw gweithredu gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol a gwella presenoldeb wedi bod yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain gynhwysfawr i fonitro cynnydd academaidd unigolion a grwpiau o ddisgyblion ar draws pob cyfnod allweddol. O'r system hon, caiff staff drosolwg gwerthfawr o berfformiad disgyblion trwy gydol y flwyddyn. Caiff y wybodaeth o'r systemau hyn ei defnyddio'n dda i olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion a nodi amrywiaeth briodol o ymyriadau i'r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae hyn wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell mewn llawer o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae staff bugeiliol yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni ac asiantaethau allanol, i fynd i'r afael ag absenoliaeth. Maent yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth disgyblion o effaith presenoldeb rheolaidd ar eu cynnydd yn briodol trwy wasanaethau, arddangosfeydd yn y coridorau a system wobrau. Fodd bynnag, nid yw system yr ysgol o gosbau a gwobrau i hyrwyddo

presenoldeb wedi bod yn ddigon llwyddiannus, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer olrhain a monitro ymddygiad ac mae'n gwneud defnydd addas o system ar-lein ar gyfer gwaith cartref, ymddygiad a phresenoldeb. Mae hon yn galluogi staff i wobrwyo ymddygiad da neu ymdrech yn syth ac mae'n rhoi gwybodaeth gyson i rieni am ymddygiad eu plentyn. Mae mwyafrif o athrawon yn cymhwyso'r polisi ymddygiad yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ymroi'n gadarnhaol i'w gwaith. Mae ychydig ddisgyblion yn ymddwyn yn wael iawn ac mae hyn yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a dysgu eraill. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn cymryd camau addas i godi ymwybyddiaeth o sut i atal bwlio, trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau gwrthfwlio'r ysgol yn rhoi digon o hyder i'r holl ddisgyblion y bydd yr ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau yn effeithiol.

Mae'r adran cymorth dysgu'n rhoi lefel uchel o ddarpariaeth sensitif a gofalgar i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn gryfder nodedig. Mae staff addysgu a staff cymorth yn rhoi cymorth gwerthfawr i helpu'r disgyblion hyn i integreiddio'n effeithiol i fywyd yr ysgol, gan ddarparu cwricwlwm amgen sy'n datblygu'u medrau bywyd ar yr un pryd. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'u hyder a theimlo'n ddiogel ac mae'n cyfrannu at eu deilliannau cryf. Mae cynlluniau unigol yn cynnwys amcanion byrdymor perthnasol i fynd i'r afael ag anghenion llythrennedd a rhifedd, ac anghenion ymddygiadol a chymdeithasol disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n ddigon effeithiol gan ychydig aelodau staff.

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n dda ag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth priodol i fynd i'r afael ag anghenion addysgol arbennig disgyblion penodol ac i roi cymorth i ddisgyblion agored i niwed. Darperir cymorth effeithiol pellach yn yr ysgol gan y swyddog cymorth bugeiliol, sy'n gweithio'n sensitif gyda disgyblion sy'n agored i niwed yn emosiynol neu ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy raglen gynhwysfawr a chynlluniedig o addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hefyd yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion pynciol, fel datrys gwrthdaro, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a rheoli arian. Yn ogystal, mae'r rhaglen hon yn cynnwys gweithgareddau dysgu gwerthfawr i helpu disgyblion i wneud dewisiadau cadarnhaol o ran bwyta ac yfed.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn dda a chaiff disgyblion amrywiaeth eang o gyfleoedd i wneud ymarfer corff, gan gynnwys trwy glybiau pêl-fasged, badminton a sbin. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion gymryd rhan yn fuddiol mewn gweithgareddau creadigol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys sioe gerdd flynyddol, Eisteddfod yr ysgol ac ymweliadau â Llangrannog a Gŵyl y Gelli.

Mae'r ysgol yn cynnig arweiniad addas i ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u dewisiadau gyrfaol yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ym Mlwyddyn 12 ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith. Yn ogystal,

mae'r ysgol yn helpu rhieni i gefnogi dysgu'u plant trwy ddarparu taflenni gwybodaeth gwerthfawr am y cwricwlwm a gwaith cartref, a chyngor perthnasol ar fwlio a phresenoldeb.

Mae gweithdrefnau diogelu yn bodloni gofynion ac nid oes unrhyw feysydd pryder sylweddol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n agos i ddatblygu gweledigaeth glir i'r ysgol, yn seiliedig ar greu 'ysgol ragorol lle mae croeso i bawb a phawb yn hapus, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cyflawni eu potensial llawn'. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n briodol a'i deall gan staff a rhieni. Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'u hymdrechion yn briodol ar godi cyrhaeddiad a datblygu medrau llythrennedd disgyblion. O ganlyniad, bu cynnydd cryf yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, ni fu arweinwyr yn ddigon llwyddiannus wrth wella presenoldeb disgyblion na sicrhau ymddygiad da yn gyson yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, nid yw arweinwyr wedi amlinellu eu disgwyliadau ar gyfer sut y dylai athrawon hyrwyddo defnydd disgyblion ar y Gymraeg yn ddigon clir.

Mae gan yr uwch dîm arwain rolau a chyfrifoldebau priodol. Mae staff yn deall y rhain yn dda. Mae eu cyfrifoldebau rheoli llinell yn glir ac wedi'u dosbarthu'n briodol. Mae cyfarfodydd rheoli llinell gydag arweinwyr pwnc yn gefnogol ac maent yn cynnwys lefel briodol o her ar gyfer gwella safonau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn rhoi digon o bwyslais ar wella ymddygiad nac ansawdd addysgu.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi ymateb yn arbennig o dda i flaenoriaeth genedlaethol, sef gwella llythrennedd disgyblion. Hefyd, maent wedi llwyddo i gynyddu cyfran y disgyblion sy'n sefyll cymhwyster Cymraeg mamiaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn hyrwyddo buddion dwyieithrwydd ddigon ac nid ydynt yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn gyson.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth eang o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn ennill dealltwriaeth ddefnyddiol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn pynciau penodol trwy eu gweithgareddau fel llywodraethwyr cyswllt.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad ei staff. Mae cyfleoedd addas i staff drafod eu perfformiad a'u cynnydd gyda'u rheolwyr llinell, sy'n arwain at gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol.

Mae mwyafrif yr arweinwyr pwnc yn deall eu cyfrifoldebau ac yn arwain eu hadrannau'n dda. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd arweinwyr pwnc wrth sicrhau safonau uchel yn amrywio'n fawr. Nid yw lleiafrif o'r arweinwyr hyn yn deall cryfderau a gwendidau addysgu yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt yn ddigon da er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae gan yr ysgol systemau priodol at ei gilydd i reoli ei chyllid a'i gwariant. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol ddiffyg cyllidol sylweddol ac mae'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i gywiro'r sefyllfa. Mae gan yr ysgol nifer priodol o staff addysgu a staff cymorth i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn addysgu'u prif

arbenigedd pwnc. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn briodol i gefnogi anghenion disgyblion. Mae'n cynnig ymyriadau defnyddiol, clybiau amser cinio a sesiynau adolygu i gefnogi disgyblion unigol. Mae'r rhain wedi cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4, ond nid ydynt wedi cael digon o effaith ar eu presenoldeb.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o weithgareddau hunanwerthuso, fel dadansoddi data perfformiad, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion, yn addas i gynllunio gwelliannau. Gwnânt ddefnydd buddiol o farn disgyblion, rhieni, staff ac aelodau'r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer bron pob dangosydd perfformiad. Mae llawer o gynlluniau gwella yn cysylltu'n dda â'r blaenoriaethau a amlygwyd drwy hunanwerthuso. Ar y cyfan, mae cynllunio ar gyfer gwella wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4 ac ar fedrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso safonau ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu yn ddigon cywir. Nid yw arweinwyr cynnydd yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon trylwyr ac nid ydynt yn llunio cynlluniau ffurfiol ar gyfer gwella. Nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb na sicrhau ymddygiad da gan ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae arweinwyr yn yr ysgol yn cynllunio'n addas ar gyfer dysgu proffesiynol staff. Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant gwerthfawr o ddysgu cydweithredol. Er enghraifft, mae'r holl staff yn cymryd rhan mewn 'dosbarthiadau meistr' rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd datblygu buddiol i weithio ar brosiectau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol, fel llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae staff addysgu'n cael cyfleoedd addas i rannu arfer dda neu arsylwi ar eraill yn addysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2019